## PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-05-02(cof)

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 10 Gorffennaf 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | **Aelodau** | |
| | Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Gorllewin Caerdydd |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| | John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| | Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| | Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| | Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| | **Gwahoddedigion Sefydlog** | |
| | Janet Davies | Pwyllgor y Rhanbarthau |
| | Rose D'Sa | Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol |
| | Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| | Jos Gallacher | Rheolwr Gyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |

**Gwahoddedigion**

| | |
|---|---|
| Erik Vilstrup Lorenzen | Cynghorwr Economaidd, Llysgenhadaeth Denmarc |
| Syr John Gray | Awdur 'Adolygiad o Ganolfan Ewropeaidd Cymru' |
| Syr Brian Smith | Cadeirydd Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| Gwenda Thomas | Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth, Isadran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Pennaeth Swydda’r Cynulliad ym Mrwsel |
| | |
| Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papurau: EUR-05-02(p1) ac EUR-05-02(p5)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mike German, Christine Chapman, Jonathan Morgan, Glenys Kinnock, Eluned Morgan, Jill Evans, Eurig Wyn, Jonathan Evans, Jon Huish a George Wright.
1. Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai materion y tu allan i’w adroddiad ysgrifenedig:

- Roedd Allied Steel and Wire, a oedd yn cyflogi 950 aelod o staff yng Nghaerdydd a 300 yn Sheerness, wedi mynd i law’r derbynnydd y bore hwnnw.
- Roedd y 'parth ewrop' dros dro oedd yn weithredol yn yr Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen wedi cynorthwyo’n fawr iawn wrth roi cyhoeddusrwydd i’r Eisteddfod a mater yr ewro.
- Byddai diwygio’r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor Amaethyddol ar 15 Gorffennaf. Byddai Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn mynychu’r cyfarfod.
- Byddai Gisela Stuart AS a Peter Hain AS yn cael eu gwahodd i fynychu un o gyfarfodydd y pwyllgor yn nhymor yr Hydref er mwyn cael trafodaeth ar sut y gallai’r pwyllgor ddylanwadu ar y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop. Yn ogystal, gellid gwahodd David Heathcoat-Amory a’r Arglwydd Robert McLennan i gyfarfod yn y dyfodol.

1. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth ar adroddiadau llafar ac ysgrifenedig y Cadeirydd:

- Gweithiodd yr Isadran Materion Ewropaidd ac Allanol gyda'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad i ddatblygu rhaglen o ymweliadau â Chymru.
- Rhoddodd yr ymweliad gan Sheikh Juma o Dubai gyfle i ddatblygu perthynas fasnachu a fyddai'n fanteisiol i Gymru.
- Cytunwyd y byddai adroddiad ysgrifenedig y Cadeirydd, ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, yn amlygu canlyniadau ymweliadau a digwyddiadau a fynychwyd gan Weinidogion, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion **(pwynt gweithredu)**.
- Eglurodd y Cadeirydd ei safle o ran y newid mewn cyfrifoldebau gweinidogol. Roedd gan Brif Weinidog Cymru ddiddordeb dilys mewn unrhyw fater a oedd yn gysylltiedig â Chymru a byddai'n parhau i gymryd rhan mewn materion Ewropeaidd a Rhyngwladol. Byddai Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn gallu neilltuo mwy o amser yn benodol at godi proffil Cymru dramor. Cafwyd cais gan yr Aelodau am adroddiad ar rôl gydlynu'r Dirprwy Brif Weinidog yn hyn o beth ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Cadeirydd i drafod y mater hwn â'r Dirprwy Brif Weinidog **(pwynt gweithredu)**.

1. Ystyriodd y pwyllgor y papur EUR 05-02(p5), cyfraniad at y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop a gynhyrchwyd gan grŵp llywio Pwyllgor Cydlynu'r Rhanbarthau â Phŵer Deddfwriaethol. Dywedodd Des Clifford, aelod o'r grp llywio, fod y Pwyllgor yn sefydliad a oedd wedi'i sefydlu ei hun a oedd yn cynnwys rhanbarthau yn Ewrop o'r un feddylfryd a oedd yn cwrdd yn flynyddol ar lefel Prif Weinidog. Roedd y papur yn gyfraniad cynnar i'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop, a gynlluniwyd i bwysleisio pwysigrwydd llywodraethau a chynulliadau rhanbarth ar sail haenau o ran rheolaeth dda yn Nyfodol Ewrop.
1. Derbyniodd y pwyllgor egwyddorion cyffredinol y papur a chytunodd i'w gyflwyno i'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop ar y ddealltwriaeth y byddai'r papur yn derbyn ystyriaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 2: Cyngor Seville**

Papur: EUR 05-02(p2)

1. Cyflwynodd Des Clifford y papur a rhoddodd grynodeb o bwyntiau amlycaf y Cyngor yn Seville:

- Cytunwyd yn y Cyngor bod angen mynd i'r afael â materion mewnfudo a lloches ar sail ledled yr UE, yn enwedig gan bod ehangu ar fin digwydd. Ni fyddai uned dollau ledled yr UE yn cael ei chreu, er y byddai'r Comisiwn yn cynnal astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer creu system integredig ar gyfer yr UE. Cytunodd y Cyngor fod yn rhaid rheoli mewnfudo yn well gan y byddai hyn o fudd i'r UE.
- Roedd y Cyngor yn fodlon â'r gyfradd gynnydd o ran ehangu o dan Arlywyddiaeth Sbaen. Roedd trafodaethau i alluogi 10 darpar wladwriaeth i ymuno yn 2004 ar y trywydd cywir, gyda Rwmania a Bwlgaria yn bwriadu ymuno erbyn 2007. Roedd Twrci yn achos ar wahân ac ni chytunwyd ar ddyddiad hyd yma. Byddai'r penderfyniad allweddol ar ymestyn cymorth amaethyddol uniongyrchol i ddarpar wladwriaethau yn cael ei ystyried yn yr uwchgynhadledd

nesaf. Byddai'r ail refferendwm yn Iwerddon ar Gytundeb Nice yn cael ei chynnal ym mis Hydref ac yna byddai'n bosibl trafod y cwestiwn a ellid ehangu heb gefnogaeth Iwerddon, pe byddai angen.

- Roedd trefniadaeth Cyngor y Gweinidogion wedi'i hailgyflunio a byddai 9 sector Cyngor bellach o gymharu â 16 cyn hynny. Roedd hyn yn golygu y byddai gan Weinidogion y Cynulliad hawl i fynychu llai o gyfarfodydd y Cyngor ond, oherwydd ailgyfluniad meysydd pwnc, mewn rhai achosion gallai dau weinidog fynychu'r un cyfarfod o'r Cyngor. Byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hintegreiddio i mewn i'r amserlen bresennol o gyfarfodydd bresennol.
- Daeth y Cyngor i'r casgliad bod y dirywiad economaidd wedi dod i ben a bod disgwyl yr UE yn barod i elwa ar fanteision gwelliant. Roedd yr ewro yn cryfhau ac roedd wedi cynyddu mewn gwerth 15% yn erbyn doler yr Unol Daleithiau. Gorfodwyd llywodraeth Ffrainc i gytuno na fyddai eu diffyg cyllideb yn fwy na'r terfyn o 3% a ganiateir ar gyfer aelodau 'euroland'.

1. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Byddai'n ddefnyddiol i'r pwyllgor fonitro cynnydd cynllun gweithredu'r Comisiwn ar gyfer *e*Ewrop 2005 a chyfathrebu ar wasanaethau sydd o ddiddordeb economaidd cyffredinol a nawdd y wladwriaeth.
- Roedd yn bwysig cydnabod bod mewnfudo yn creu manteision sylweddol, a'i fod wedi helpu i gynnal iechyd economaidd yr UE. Cytunodd y Cyngor y byddai'n annog cyswllt cadarnhaol gyda gwladwriaethau a oedd yn brif ffynonellau mudo yn hytrach na mabwysiadu mesurau cosbi ar gyfer gwledydd nad oeddent yn cydweithredu.
- Roedd gwahaniaeth ymysg aelod wladwriaethau o ran eu dull o ymdrin â cheiswyr lloches. Roedd yn bwysig, wrth lunio system fwy cydweithredol ar draws yr UE, nad oedd yn mabwysiadu'r cyfenwadur lleiaf o ran triniaeth.

**Eitem 3: Blaenoriaethau ar gyfer Arlywyddiaeth Denmarc**

1. Croesawodd y Cadeirydd Erik Vilstrup Lorenzen, y Cynghorwr Economaidd o Lysgenhadaeth Denmarc, i'r cyfarfod a gofynnodd iddo siarad â'r pwyllgor am flaenoriaethau Arlywyddiaeth Denmarc ar Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.
1. Amlinellodd y Cynghorwr 5 blaenoriaeth Arlywyddiaeth Denmarc:

- Y prif flaenoriaeth oedd cwblhau trafodaethau ehangu â hyd at 10 o ddarpar wladwriaethau yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Copenhagen ym mis Rhagfyr 2002. Ym mis Hydref, byddai'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd a wnaethpwyd gan ddarpar wladwriaethau a byddai'n gallu rhoi syniad o'r rhai a fyddai'n debygol o ymuno yn y rownd ehangu gyntaf. Yn yr un modd, y nod oedd cwblhau trafodaethau mewnol yr UE ar faterion megis amaethyddiaeth erbyn mis Hydref. Byddai gan Bwlgaria a Rwmania 'fap ffordd' newydd ar gyfer bod yn aelodau ac roedd yn rhaid i Dwrci gyflawni amodau gwleidyddol penodol o hyd cyn dechrau ar drafodaethau. Yn ogystal, byddai'r Arlywyddiaeth yn edrych ar ddatblygu cysylltiadau â gwledydd cymdogol newydd, megis Belarws, yr Wcráin a Moldofa. Nid oedd y refferendwm yn Iwerddon ar Gytundeb Nice yn faen tramgwydd ar gyfer ehangu a byddai'r Arlywyddiaeth yn ystyried ei opsiynau yn dilyn penderfyniad pobl Iwerddon.
- Rhyddid, diogelwch a chyfiawnder oedd ail flaenoriaeth yr Arlywyddiaeth. Yn dilyn y Cyngor

yn Seville, roedd mewnfudo yn uchel ar yr agenda a nodwyd yr angen am fwy o gydweithredu ar faterion lloches. Yn ogystal, byddai'r frwydr yn erbyn terfysgaeth a chydweithredu trawsffiniol yn erbyn trosedd yn faterion a fyddai'n cael eu trafod.

- Datblygiad cynaliadwy oedd y drydedd flaenoriaeth a byddai ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu harchwilio yn ystod yr Arlywyddiaeth.
- Bwyd diogel oedd y bedwaredd flaenoriaeth a nod yr Arlywyddiaeth oedd mynd i'r afael â diwygio polisi pysgodfeydd a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) yn unol â thrafodaethau ehangu.
- Cyfrifoldeb byd-eang oedd y bumed flaenoriaeth a byddai ymdrechion yn canolbwyntio ar Uwchgynhadledd y Byd yn Johannesburg ac ar sefydlu rôl yr UE yn y byd.

1. Dywedodd y Cynghorwr y byddai'r Arlywyddiaeth yn edrych ar faterion eraill yn cynnwys diwygio Cyngor y Gweinidogion, creu proses ddeddfwriaethol mwy tryloyw gan gynnwys dadleuon agored a pharhau'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop. Rhoddodd Llywodraeth Denmarc bwys arbennig i Ddyfodol Ewrop a'i dymuniad yw gweld dull mwy manwl o lafur rhwng yr UE a'r Aelod Wladwriaethau. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Denmarc o blaid y Siarter ar hawliau sylfaenol. Roedd cysylltiadau cryf rhwng Llywodraethau'r DU a Denmarc a byddai cydweithredu agos â'r DU yn ystod Arlywyddiaeth Denmarc ar yr UE.
1. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Croesawodd y pwyllgor mai un o flaenoriaethau Arlywyddiaeth Denmarc oedd datblygiad cynaliadwy ac ystyriodd y dylid canmol y nod o roi Protocol Kyoto ar waith.
- Roedd gan yr Arlywyddiaeth nod cyffredinol o leihau cyfanswm lefel nawdd y wladwriaeth. Roedd parhau i ddatblygu ynni adnewyddadwy ac adfer yr economi mewn cymunedau difreintiedig yn nodau pwysig o hyd ond byddai'n rhaid cyflawni'r rhain o fewn lefel nawdd y wladwriaeth is.
- Roedd yn bwysig bod yr heddwch a'r sefydlogrwydd a grëwyd yn yr UE yn parhau i ledu. Roedd yn rhaid i'r UE gydweithio'n agos ag Unol Daleithiau America yn y Dwyrain Canol, er bod trafodaeth barhaus ar sut y gallai'r UE ddylanwadu'n wleidyddol yn hytrach na darparu cymorth ariannol a chymorth dyngarol yn unig. Dywedodd y Cynghorwr fod angen mwy o gysondeb yn Arlywyddiaeth y Cyngor er mwyn datblygu rôl fyd-eang yr UE, a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu Arlywyddiaeth 'tîm'.
- Byddai'n rhaid cynnal y ddadl ynghylch diwygio CAP ochr yn ochr â thrafodaethau ar ehangu. Roedd yn flaenoriaeth gan Arlywyddiaeth Denmarc i roi blaenoriaeth i ehangu cyn diwygio CAP rhag gohirio ehangu.

**Eitem 4: Canolfan Ewropeaidd Cymru**

Papurau: EUR 05-02(p3) a EUR 05-02(p6)

1. Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Syr John Gray o Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) a phapur ar swyddogaethau arfaethedig Swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mrwsel. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd angen parhaus i gael WEC diwygiedig ym Mrwsel i gydfodoli ochr yn ochr â Swyddfa

Llywodraeth y Cynulliad wedi'i hatgyfnerthu. Yn ddelfrydol dylai'r sefydliadau hyn rannu un adeilad, a bydd rhaniad diogelwch rhwng rhannau rhanddeiliad a llywodraethol yr adeilad.

- Ailddatganodd Prif Weinidog Cymru ei ymrwymiad i ddarparu cyfleusterau a sesiynau briffio i holl Aelodau'r Cynulliad drwy Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel. Byddai negodiadau ar y trefniadau hyn yn cael eu cynnal ar y cyd â Swyddfa'r Llywydd.
- Disgwyliwyd y byddai cyfanswm o 8 swyddog yn swyddfa Llywodraeth y Cynulliad wedi'i hatgyfnerthu ym Mrwsel. Byddai'r swyddogion yn cwmpasu'r meysydd polisi hynny yr oedd gan y Cynulliad gyfrifoldeb gweinidogol drostynt. Roedd swyddogion y Cynulliad ym Mrwsel yn gweithio yn y Cynulliad yn unig er eu bod wedi derbyn cymwysterau llysgenhadol gan Gynrychiolydd Parhaol y DU.
- Ni fyddai perthynas Llywodraeth y Cynulliad â UKRep yn newid o ganlyniad i bresenoldeb llywodraethol wedi'i hatgyfnerthu ym Mrwsel. Roedd concordat ffurfiol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn bodoli fel rhan o'r setliad datganoli. Roedd swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel wedi datblygu ffynonellau swyddogol ac anffurfiol o ran gwybodaeth ac roedd angen adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yr oedd y cysylltiadau hyn yn eu darparu.
- Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru heb benderfynu pa un a oeddent am barhau i fod yn rhan o sefydliad rhanddeiliaid ym Mrwsel ac nid oedd Awdurdod Datblygu Cymru wedi gwneud penderfyniad terfynol ar ei gyfranogiad parhaus â WEC. Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i annog a chefnogi rhanddeiliaid i fynd yn eu blaen â WEC diwygiedig, er bod y penderfyniad terfynol yn un y byddai'r rhanddeiliaid eu hunain yn ei wneud.
- Dywedodd Syr Brian Smith y byddai'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau diswyddo ar gyfer staff yn WEC ddiwedd mis Medi oni bai y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar ei ddyfodol erbyn canol mis Medi. Byddai Syr John Gray yn gwneud gwaith dilynol ar yr adolygiad drwy weithio fel hwyluswr ar gyfer y WEC.
- Dywedodd Syr John Gray fod yn rhaid i randdeiliaid WEC benderfynu ar yr hyn yr oedd ei angen arnynt o Frwsel a pha un a fyddai WEC diwygiedig neu Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad yn gallu diwallu eu gofynion. ** Gallai WEC ddiwygiedig gyflogi pum swyddog polisi ym Mrwsel ac un swyddog yng Nghymru i gynorthwyo â'r gwaith o rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid. Dywedodd Syr John Gray fod yn rhaid i drefniadau ariannu y cytunwyd arnynt fod mewn grym er mwyn diwygio WEC.
- Dywedodd Jos Gallacher y bu WEC yn ffodus i gadw ei lefel staffio bresennol hyd yma, ond bod staff yn dechrau ystyried eu hopsiynau a byddai'r ansicrwydd ynghylch dyfodol WEC yn arwain at arafu anochel o ran cyflwyno ei allbynnau.
- Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai'n cysylltu â'r Dirprwy Brif Weinidog o ran eu rolau priodol wrth hwyluso trafodaethau â rhanddeiliaid.
- Rhoddwyd pwysau ar Brif Weinidog Cymru i ddarparu arian i warantu dyfodol WEC yn y byr dymor. Dywedodd Prif Weinidog Cymru na allai roi gwarantau ariannol yn y fan a'r lle ond pe byddai arian byr dymor yn broblem tra bod penderfyniadau yn cael eu datrys o hyd yna roedd yn sicr y gellid ystyried y sefyllfa mewn ffordd gydymdeimladol.

**Eitem 5: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

1. Dywedodd Catherine Eva fod Romano Prodi a Neil Kinnock wedi mynychu achlysur agor swyddfa newydd y Comisiwn Ewropeaidd yn Caspian Point. Ar wahoddiad y Comisiwn Hawliau

Anabledd, byddai Romano Prodi hefyd yn mynychu digwyddiad yng Nghymru y flwyddyn nesaf i gyd-daro â ‘Blwyddyn Anabl Ewrop’. Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor mai hwn fyddai cyfarfod olaf Catherine Eva fel Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn yng Nghymru. Diolchodd Aelodau i Catherine Eva am ei chyfraniadau i’r pwyllgor ac am ei holl waith yng Nghymru.

1. Yn ddiweddar roedd Rose D'Sa wedi ymgymryd ag aseiniadau yn Bosnia-Herzegovina mewn cysylltiad â defnyddio cyfraith hawliau dynol. Gallai Bosnia- Herzegovina fod yn rhan o’r ail gr p o wledydd oedd yn ceisio mynediad i’r UE.
1. Dywedodd Rosemary Butler mai’r prif ddadleuon yn ystod sesiwn diwethaf Pwyllgor y Rhanbarthau oedd ar ehangu a’r Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop. Derbyniwyd safbwyntiau ar Ieuenctid ac Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn y sesiwn ac roedd gwaith wrthi’n cael ei wneud ar lunio safbwyntiau ar bysgodfeydd a mwy o dryloywder yn yr Undeb Ewropeaidd. Cytunodd Rosemary Butler i gysylltu â Gwenda Thomas, cynrychiolydd y Cynulliad ar Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE) ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

**Eitem 6: Trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

1. Croesawodd y Cadeirydd Gwenda Thomas i’r cyfarfod a gofynnodd iddi siarad â’r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LGH) mewn cysylltiad ag Ewrop.
1. Dywedodd Gwenda Thomas mai yn anfynych yr ystyriwyd materion Ewropeaidd yn y Pwyllgor LGH. Roedd y rheolau a’r rheoliadau sy’n effeithio ar awdurdodau lleol a chymunedau yn dueddol o fod yn faterion nad oedd wedi’u datganoli ac nid oeddent yn amharu ar amser y pwyllgor. Un mater a ystyriwyd gan y pwyllgor oedd y broses o weithredu cronfeydd strwythurol a chronfeydd Ewropeaidd eraill. Yn ddiweddar roedd y Pwyllgor LGH wedi cwblhau ei adolygiad polisi ar Adfywio Cymunedol ac un o agweddau allweddol yr adolygiad oedd ariannu gweithgaredd adfywio cymunedol. Problemau ariannu oedd y prif anhawster oedd yn wynebu gwaith adfywio cymunedol ac roedd y pwyllgor yn sylweddoli y gallai arian Ewrop, ynghyd â ffrydiau ariannu eraill, chwarae rhan bwysig wrth geisio gwella’r sefyllfa. Fodd bynnag, roedd llawer o sefydliadau cymunedol o’r farn eu bod wedi’u hatal rhag ceisio sicrhau arian oherwydd gofynion biwrocrataidd y systemau ariannu.
1. Dywedodd Gwenda Thomas mai hithau hefyd oedd cynrychiolydd y Cynulliad ar ddirprwyaeth y DU yn CLRAE. Sefydlwyd CLRAE gan Gyngor Ewrop ym 1994 fel corff ymgynghorol i ddisodli’r cyn Gynhadledd Sefydlog Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol. Mynychodd Gwenda Thomas sesiwn llawn y CLRAE a gynhaliwyd ym mis Mehefin eleni a hwn oedd y cyfarfod cyntaf lle cafodd y Cynulliad ei gynrychioli fel aelod llawn. Cynrychiolaeth ‘amgen’ Cymru oedd y Cynghorydd Alan Lloyd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chafodd ei ethol fel Is-lywydd i’r Gyngres yn y cyfarfod ym mis Mehefin. Dywedodd Gwenda Thomas fod cynrychiolaeth y Cynulliad yn CLRAE yn ei gwneud yn ofynnol i gael diffiniad cliriach gan fod llywodraeth leol yn swyddogaeth ddatganoledig ac roedd gan ddirprwyaeth y DU amcanion gwahanol i rai’r Cynulliad.
1. Cafwyd cais gan y pwyllgor am wybodaeth ar waith CLRAE a chytunodd Gwenda Thomas y byddai’n darparu copi o reolau gweithdrefnol y sefydliad **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 7: Pysgodfeydd Ewropeaidd**

Papur: EUR 05-02(p4)

7.1 Nodwyd y papur gan y pwyllgor.

**Eitem 8: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Papur: EUR-04-02(min)

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.56pm.